**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AC
Y Prif Weinidog

21 Mehefin 2019

Annwyl Mark,

**Gwella canlyniadau i blant**

Diolch ichi am eich llythyr ar **16 Ebrill 2019** yn ymateb i'm **cais** am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaith sydd ar y gweill i fodloni eich ymrwymiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Ymhellach i'r ohebiaeth hon, fe'm gwnaed yn ymwybodol fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod pryderon ynghylch y disgwyliadau o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod bod y ffrwd gwaith cyntaf o **raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant** yn cyfeirio at leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal mewn modd *diogel*. Serch hynny, rydym yn pryderu am y materion a godwyd â ni, gan gynnwys yr awgrym y bydd disgwyl i awdurdodau lleol osod targedau fel ffordd o ysgogi lleihad yn niferoedd y plant sydd angen gofal.

Er mwyn deall yn iawn beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran:

- sut y bydd nodau'r ffrwd gwaith a'r rhaglen ehangach yn gweithio'n ymarferol ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol;
- natur a nodau unrhyw dargedau a fydd yn cael eu cyflwyno;
- (os cyflwynir targedau), pwy fydd yn gyfrifol am eu gosod, cynnal asesiad risg ar eu cyfer, a monitro eu heffaith.

Byddaf yn ysgrifennu at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru i ofyn am wybodaeth ynghylch eu dealltwriaeth hwy o'r materion hyn. Byddaf yn rhannu copi o'r holl ohebiaeth berthnasol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhinwedd

ei waith ar blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal, yn ogystal â David Melding AC fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
David Melding AC, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant

Yr Athro Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

21 Mehefin 2019

Annwyl Sally,

**Gwella canlyniadau i blant**

Yn gynharach eleni, ysgrifennais at Brif Weinidog Cymru i **ofyn** am wybodaeth ynghylch y gwaith sydd ar y gweill i fodloni ei ymrwymiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y Pwyllgor ymateb ar **16 Ebrill 2019**.

Ymhellach i'r ohebiaeth hon, fe'm gwnaed yn ymwybodol fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod pryderon ynghylch y disgwyliadau o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod bod y ffrwd gwaith cyntaf o **raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant** yn cyfeirio at leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal mewn modd *diogel*. Serch hynny, rydym yn pryderu am y materion a godwyd â ni, gan gynnwys yr awgrym y bydd disgwyl i awdurdodau lleol osod targedau fel ffordd o ysgogi lleihad yn niferoedd y plant sydd angen gofal.

Er mwyn deall yn iawn beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am eich dealltwriaeth chi o'r materion a ganlyn:

- sut y bydd nodau'r ffrwd gwaith a'r rhaglen ehangach yn gweithio'n ymarferol ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol;
- natur a nodau unrhyw dargedau a fydd yn cael eu cyflwyno;
- (os cyflwynir targedau), pwy fydd yn gyfrifol am eu gosod, cynnal asesiad risg ar eu cyfer, a monitro eu heffaith.

Byddaf yn ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am eglurhad ynghylch yr uchod, ac at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ofyn am ei farn ar y materion hyn. Byddaf yn rhannu copi o'r holl ohebiaeth berthnasol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhinwedd ei waith ar

blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn ogystal â David Melding AC fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
David Melding AC, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Susan Cooper
Llywydd
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

21 Mehefin 2019

Annwyl Susan,

**Gwella canlyniadau i blant**

Yn gynharach eleni, ysgrifennais at Brif Weinidog Cymru i **ofyn** am wybodaeth ynghylch y gwaith sydd ar y gweill i fodloni ei ymrwymiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y Pwyllgor ymateb ar **16 Ebrill 2019**.

Ymhellach i'r ohebiaeth hon, fe'm gwnaed yn ymwybodol fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod pryderon ynghylch y disgwyliadau o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod bod y ffrwd gwaith cyntaf o **raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant** yn cyfeirio at leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal mewn modd *diogel*. Serch hynny, rydym yn pryderu am y materion a godwyd â ni, gan gynnwys yr awgrym y bydd disgwyl i awdurdodau lleol osod targedau fel ffordd o ysgogi lleihad yn niferoedd y plant sydd angen gofal.

Er mwyn deall yn iawn beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am eich dealltwriaeth chi o'r materion a ganlyn:

- sut y bydd nodau'r ffrwd gwaith a'r rhaglen ehangach yn gweithio'n ymarferol ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol;
- natur a nodau unrhyw dargedau a fydd yn cael eu cyflwyno;
- (os cyflwynir targedau), pwy fydd yn gyfrifol am eu gosod, cynnal asesiad risg ar eu cyfer, a monitro eu heffaith.


Byddaf yn ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am eglurhad ynghylch yr uchod, ynghyd â Chomisiynydd Plant Cymru i ofyn am ei barn ar y materion hyn. Byddaf yn rhannu copi o'r holl ohebiaeth berthnasol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhinwedd ei waith ar blant a phobl ifanc

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

sy'n derbyn gofal, yn ogystal â David Melding AC fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
David Melding AC, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant